Llywodraeth Cymru
Welsh Government

hcpc health & care professions council

**14 Rhagfyr 2022**

Annwyl Gydweithiwr,

Diolch yn fawr ichi am bopeth yr ydych wedi'i wneud ac yn parhau i'w wneud i'n poblogaeth yng Nghymru a phawb sy'n cael gofal wrth inni symud tuag at gyfnod prysur iawn y gaeaf. P'un a ydych yn darparu gofal uniongyrchol, yn cefnogi cydweithwyr neu'n arwain gwasanaethau a thimau, rydym yn gwybod bod eich cyfraniad yn gwneud gwahaniaeth mawr i'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.

Mae'r blynyddoedd diwethaf wedi bod yn rhai o'r blynyddoedd mwyaf heriol y mae'r sector iechyd a gofal cymdeithasol a'n proffesiynau wedi'u hwynebu yn y cyfnod modern. Mae'n amlwg y bydd heriau pellach o'n blaenau dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf wrth inni edrych tuag at y gaeaf. Roeddem am fanteisio ar y cyfle i fynegi ein diolchgarwch dwys am eich proffesiynoldeb a'ch gwaith caled parhaus ac i ailddatgan ein sicrwydd o gymorth.

Fel y gwyddom i gyd, mae galw ychwanegol eisoes ar draws pob sector a lleoliad sy'n darparu iechyd a gofal. Mae'r pwysau hyn yn debygol o waethygu yn sgil prinder staff oherwydd salwch neu gyfrifoldebau gofalu. Bydd yr effaith ar staff yn bersonol ac yn broffesiynol yn sylweddol ac o bosibl yn hir drwy gydol y misoedd nesaf.

Rydym yn cydnabod y bydd y gaeaf hwn yn anodd a'ch bod yn debygol o fod â phryderon am ymarferoldeb proffesiynol a goblygiadau gweithio o dan bwysau parhaus. Rydym wedi ymrwymo i wneud yr hyn a allwn i sicrhau eich bod, ac yn teimlo eich bod, yn cael cymorth ac yn ddiogel.

Rydym yn hyderus y bydd pob un ohonoch yn parhau i ymateb a chyflawni eich dyletswyddau yn broffesiynol, yn unol â'r gwerthoedd a'r egwyddorion a nodir yn ein safonau proffesiynol priodol. Rydym yn siŵr y byddwch yn canolbwyntio'n glir ar yr unigolion yr ydych chi'n gofalu amdanyn nhw, ac ar y bobl hynny yn y system a'r gymuned ehangach sydd efallai angen gofal a thriniaeth hefyd.

Mewn cyfnod mor heriol, pan fydd efallai angen ichi wyro oddi wrth weithdrefnau sefydledig i ofalu am bobl, rydym yn deall y gallai rhai bod yn ofnus y gallent gael eu cyfeirio at y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal.

Rydym yn eich sicrhau y bydd eich cod proffesiynol a'ch egwyddorion ymarfer yn arwain ac yn cefnogi eich dyfarniadau a'ch penderfyniadau ym mhob amgylchedd. Mae hyn yn cynnwys ystyried gwirioneddau lleol a'r angen ar adegau i addasu arferion pan fo pwysau cenedlaethol wedi cynyddu'n sylweddol. Os cewch eich cyfeirio at y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal, sy'n beth annhebygol, byddant yn

ystyried y cyd-destun yr oeddech yn gweithio ynddo ar y pryd, gan gynnwys yr holl adnoddau, canllawiau neu brotocolau perthnasol.

Cyfrifoldeb pob cyflogwr ac arweinydd yw sicrhau bod pob ymarferydd proffesiynol sy'n gweithio yn eu sefydliadau yn cael cymorth da yn eu gwaith, a bod sianeli ar gyfer codi a gweithredu ar bryderon yn parhau yn agored a hygyrch i'r holl staff. Disgwylir i gyflogwyr, goruchwylwyr addysgol, cyrff proffesiynol, sefydliadau iechyd a gofal cenedlaethol fod yn hyblyg wrth gydnabod y dirwedd heriol a newidiol yr ydym yn debygol o'i hwynebu.

Byddwn yn parhau i fonitro'r sefyllfa a rhannu gwybodaeth drwy'r fforymau ansawdd presennol. Bydd rheoleiddwyr cenedlaethol hefyd yn ystyried yr angen i gadw goruchwyliaeth reoleiddiol yn gymesur ar yr adeg brysur hon, wrth gynnal y ffocws ar ddiogelwch cleifion ac amddiffyn y cyhoedd.

Mae angen inni gyd gefnogi ein gilydd yn ystod y cyfnod hwn, gan sicrhau ein bod fel rhan o dîm, yn cydnabod effaith ymdopi mewn amgylchiadau heriol, gan ddarparu cymorth a chyngor fel sydd ei angen. Mae'n anodd ac yn parhau i fod yn anodd, ac mae cydgefnogaeth rhwng gweithwyr proffesiynol yn hanfodol. Mae gofyn am help gan eraill pan fydd ei angen arnoch yn arfer broffesiynol dda. Gofynnwn ichi hefyd ofyn am gymorth gan eich sefydliadau os oes ei angen arnoch.

Yn olaf, hoffwn ddiolch ichi eto am yr holl ymdrechion diflino yr ydych wedi'u gwneud ac yn parhau i'w gwneud i ddarparu'r gofal gorau posibl i gleifion a'r cyhoedd.

Yn gywir

**DR ROB ORFORD**

Prif Ymgynghorydd Gwyddonol (Iechyd) /Chief Scientific Advisor, Llywodraeth Cymru / Welsh Government

**RUTH CROWDER**

Prif Gynghorydd Proffesiynau Perthynol i Iechyd / Chief Allied Health Professions Advisor, Llywodraeth Cymru / Welsh Government

**JOHN BARWICK**

Prif Swyddog Gweithredol a Chofrestrydd / Chief Executive Officer and Registrar, Cyngor y Proffesiynau Iechyd a Gofal / Health and Care Professions Council